Cyllid Datblygu Rhanbarthol wedi'r UE

1. Cyflwyniad

1.1. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru. Ein diben yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.

1.2. Mae CGGC wedi bod ynghlwm â dyluniad a gweithrediad y Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru ers 2000, o ddatblygu dogfennau rhaglen Amcan Un, i gyflawni amrediad o weithrediadau drwy raglenni olynol fel y Gronfa Risg Gymdeithasol, y Farchnad Lafur Drosiannol a'r Porth Ymgysylltu, ac yn rhaglen 2014-2020, y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol, y Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol a'r Gronfa Datblygu Asedau Cymunedol.

1.3. Cafodd CGGC ei benodi fel Corff Cyfryngol (IB) o dan y rhaglen 2014-2020 bresennol, i gydnabod ei allu i reoli a gweinyddu grantiau cystadleuol yn effeithiol ar ran Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).

1.4. Mae'r cyflwyniad hwn yn ymateb i ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd i gyllid datblygu rhanbarthol wedi'r UE, ac yn seiliedig ar drafodaethau gyda Fforwm Ewrop y Trydydd Sector, Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) a mudiadau eraill o'r sector gwirfoddol sydd â phrofiad o gyflwyno prosiectau'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.

2. Pa mor effeithiol oedd Cronfeydd Strwythurol yr UE o ran trawsnewid economi Cymru?

2.1. Mae'r Cronfeydd Strwythurol wedi cael effaith sylweddol ar y sector gwirfoddol yng Nghymru ac, o ganlyniad, ar yr unigolion a'r cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol y mae'r sector yn eu cefnogi.

2.2. Amcangyfrifir fod y sector gwirfoddol wedi cael dros £224 miliwn o dan raglenni 2000-2006 Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ac wedi cael dros £105 miliwn yng nghylch cyllido 2007-2014. O dan raglenni

cyfredol 2014-2020, mae'r sector gwirfoddol wedi arwain gweithrediadau sy'n werth dros £138 miliwn.[1]

2.3. Mae mudiadau'r sector gwirfoddol wedi cael cysylltiad sylweddol â rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau a gyllidwyd gan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (ESF), fel Cronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC, a helpodd fudiadau gwirfoddol i gefnogi rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas ar eu taith tuag at gyflogaeth. Ers 2015, mae Cynhwysiant Gweithredol wedi dyfarnu dros £30 miliwn mewn cyllid grant i fwy na 180 o fudiadau, ac wedi helpu mwy na 23,000 o bobl ddifreintiedig i symud i mewn i, neu'n agosach at gyflogaeth. Roedd gan y Gronfa gyfrifiad 'adenillion cymdeithasol o fuddsoddi' o oddeutu £3.37 o elw ar bob £1 a wariwyd.[2]

2.4. Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae'r Cronfeydd Strwythurol wedi eu defnyddio'n llwyddiannus i ysgogi twf a datblygiad y sector busnes cymdeithasol yng Nghymru gyda chymorth Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Yn y rhaglen gyllido gyfredol, gwnaeth Cronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol a Chronfa Datblygu Asedau Cymunedol CGGC ddyfarnu £4.8 miliwn ar draws 59 o fusnesau cymdeithasol, gan greu 282 o swyddi.

3. A yw'r cyllid y bydd Cymru'n ei gael tan 2024-25 drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a gweddill Cronfeydd Strwythurol yr UE yn cyfateb i lefel y cyllid a dderbyniodd Cymru drwy Gronfeydd Strwythurol tra roedd y DU yn aelod o'r UE ac unrhyw Gronfeydd Strwythurol posibl a fyddai wedi bod ar gael drwy'r rhaglen nesaf

3.1. Un o'r pryderon mwyaf i'r sector gwirfoddol yw amserlenni Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (y Gronfa Ffyniant). Ni chafodd y cyllid ei lansio na'i ddosbarthu ar adeg dda gan nad oedd yn cyd-fynd â'r adeg yr oedd cyllid yr UE yn dirwyn i ben. Cafodd hyn effaith fawr ar nifer sylweddol o fudiadau a oedd â phrosiectau a ddaeth i ben cyn i arian y Gronfa Ffyniant gael ei gyflwyno.

3.2. Er y bydd y cyllid yn cyfateb â lefelau'r Cronfeydd Strwythurol blaenorol erbyn trydedd flynedd y cyfnod cyllido, mae angen nodi ein bod eisoes yn ail flwyddyn y Gronfa Ffyniant, a'r rhan helaeth ohoni heb ei

[1] UKRCS (2023) Proses Dwy Ffordd: Cymorth y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ar gyfer y Sector Gwirfoddol yng Nghymru t. 16 https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2023/03/Cymorth-y-Cronfeydd-Strwythurol-a-Buddsoddi-Ewropeaidd-ar-gyfer-y-Sector-Gwirfoddol-yng-Nghymru.pdf Cyrchwyd: 20 Ebrill 2023

[2] UKRCS (2022) Gwerthusiad Cronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC. Adroddiad Terfynol: Crynodeb Gweithredol t. 6. https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2023/01/Gwerthusiad-Cronfa-Cynhwysiant-Gweithredol-CGGC-Adroddiad-Terfynol-Crynodeb-Gweithredol.pdf Cyrchwyd: 20 Ebrill 2023

dosbarthu eto, a bydd angen cyflawni prosiectau erbyn diwedd 2024 er mwyn caniatáu amser i gau'r rhaglen.

3.3. Mae'n anodd cymharu lefel y cyllid y mae Cymru yn ei dderbyn o'r Gronfa Ffyniant â faint y byddai wedi'i dderbyn o raglen nesaf y Cronfeydd Strwythurol, oherwydd y cylchau cyllido gwahanol. Ond, amcangyfrifodd ddadansoddiad gan Gynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol (CPMR) y byddai'r DU wedi bod â'r hawl i gael 22% mwy o gyllid ar gyfer cyfnod 2021-2027, ar sail methodoleg ddyrannu'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y cronfeydd.[3] Byddai hyn wedi effeithio ar lefel y cyllid a fyddai'n dod i Gymru yn benodol, oherwydd byddai Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, rhanbarthau tlotaf y DU, wedi parhau i gael eu hystyried yn rhanbarthau 'llai datblygedig' ac felly â'r hawl i gael lefel uwch o gyllid.

4. Pa elfennau o'r ddwy gronfa newydd sydd wedi gweithio'n dda hyd yma, a pha rai sydd wedi bod yn llai effeithiol. Pa wersi y gellid eu dysgu ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau bod yr arian yn cael yr effaith fwyaf bosibl.

4.1. Mae ein hymateb yn canolbwyntio ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin oherwydd dyma'r un y bydd y sector gwirfoddol yn fwy tebygol o'i chyrchu.

4.2. Rydym yn cefnogi'r polisi trosfwaol y mae'r Gronfa Ffyniant yn seiliedig arno a'i flaenoriaethau buddsoddi. Mae llawer o nodau'r Gronfa yn cyd-fynd â gweithgarwch ac arbenigedd y sector gwirfoddol, e.e. cynyddu'r ymgysylltiad mewn diwylliannau a chymunedau lleol, codi cyflogau, cyflogaeth a chynhyrchiant, cynorthwyo pobl economaidd anweithgar i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth, cynorthwyo'r rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur i ennill sgiliau a chael gwaith.

4.3. Cymeradwyir y ffaith bod y Gronfa Ffyniant yn galluogi lleoedd i wneud penderfyniadau buddsoddi lleol, yn agos at y cymunedau y mae'r penderfyniadau hyn yn effeithio arnynt. Ond, mae'r strwythurau a phrosesau cyfredol yn gwneud cydweithio rhanbarthol yn anodd iawn, sy'n arbennig o heriol i fudiadau mwy a chenedlaethol sy'n gweithredu mewn mwy nag un rhanbarth neu ardal awdurdod lleol. Mae'r dull gweithredu gor-leol hwn wedi arwain at dirwedd gyllido anghyson iawn ledled Cymru, ac ychydig iawn o gydlyniant a welir rhwng rhanbarthau. Gallwn ni hefyd weld anghysondebau o fewn y rhanbarthau, e.e. mae galwadau agored eisoes wedi eu cyhoeddi mewn rhai ardaloedd, ond mewn ardaloedd eraill, ychydig iawn o wybodaeth

[3] CPMR (2019) UK entitled to €13bn regional funding if it remains in EU (*Hawl gan y DU i gael €13 biliwn o gyllid rhanbarthol os yw'n aros yn yr UE*) https://cpmr.org/wpdm-package/uk-allocation-for-cohesion-policy-for-post2020/?wpdmdl=20524&ind=1550570009760 (Saesneg yn unig) Cyrchwyd: 21 Ebrill 2023

sydd ar gael i'r cyhoedd, os o gwbl, am sut mae awdurdodau lleol yn bwriadu gwario'r cyllid.

4.4. Mae'n well cyflawni rhai ymyraethau penodol yn lleol (e.e. cefnogi prosiectau seilwaith cymunedol a chymdogol), tra bod rhai ymyraethau yn debygol o fod yn fwy effeithiol pan maent yn cael eu cyflawni'n rhanbarthol (e.e. prosiectau cyflogadwyedd a sgiliau oherwydd yr angen am gydgysylltiad strategol a gweithredol. Mae angen i gyllid adlewyrchu hyn yn y dyfodol, gan adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd yn sgil cyflwyno'r Cronfeydd Strwythurol, y Gronfa Adfywio Cymunedol a'r Gronfa Ffyniant, ac ymwreiddio'r elfennau sydd wedi gweithio'n dda ym mhob un o'r rhaglenni hyn.

4.5. Rydym yn cefnogi'r ymrwymiad i leihau'r lefelau o fiwrocratiaeth a gweinyddiaeth, ond mae'r anghysondebau mewn gweithredu rhwng ac o fewn y pedwar rhanbarth yn ei gwneud hi'n anodd iawn i fudiadau sy'n chwilio am gyllid ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â mwy nag un ardal awdurdod lleol. Mae gorfod ymgysylltu â nifer o gynghorau ac adrodd iddynt yn gofyn am gapasiti nad oes gan fudiadau bob amser neu gapasiti y gallent eu cyfeirio at fannau eraill pe bai'r broses yn fwy effeithlon.

4.6. Mae ymgysylltiad awdurdodau lleol â'r sector gwirfoddol - ac yn fwy penodol, â'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) lleol - wedi amrywio ledled Cymru. Rydym wedi gweld ychydig o arferion da mewn rhai mannau lle mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n agos gyda'r CVC lleol ac yn eu cynnwys mewn prosesau penderfynu. Mae rhai CVCs wedi cael eu hannog i redeg 'cronfa allweddol' a fyddai'n caniatáu iddynt ddosbarthu cronfa o gyllid i fudiadau'r sector gwirfoddol a chymunedau lleol. Ond mewn rhai rhannau o Gymru, nid yw'r CVCs wedi eu cynnwys ym mhob trafodaeth leol ynghylch y Gronfa Ffyniant.

4.7. Ychydig iawn o ymgynghori a wnaeth Llywodraeth y DU ar y Gronfa Ffyniant cyn ei lansio. Dylid fod wedi datblygu'r Gronfa ar ôl ymgynghoriadau ystyrlon â darpar fuddiolwyr a'r rheini sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen i gynorthwyo'r bobl hyn. Mae'n hanfodol bod y sector gwirfoddol (a sectorau eraill) yn cael eu cynnwys yn natblygiad rhaglenni cyllido yn y dyfodol ar ôl mis Mawrth 2025; byddai hyn yn sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddosbarthu'n fwy effeithiol.

4.8. Cafodd rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru eu negodi rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd, a chawsant eu monitro gan Bwyllgor Monitro'r Rhaglen (PMC). Sicrhaodd hyn fod y rhaglen yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol Cymru, a thrwy gael cynrychiolaeth ar y PMC, bu modd i'r sector gwirfoddol

ddylanwadu ar gyfeiriad, gwariant a rheolaeth y Cronfeydd. Mae Llywodraeth y DU wedi newid y system hon yn aruthrol drwy fynd o amgylch Llywodraeth Cymru a lleihau ei rôl o'i chymharu â'i statws fel Awdurdod Rheoli o dan raglenni'r Cronfeydd Strwythurol. Mae'r broses o reoli'r cyllid yn ganolog ar lefel Cymru wedi'i disodli â system ranedig. Mae'r newid mewn llywodraethiant hefyd wedi newid rôl y sector gwirfoddol, o fod yn bartner cyfartal yn y gwaith o ddylunio a chyflwyno'r cyllid, gyda chynrychiolaeth uniongyrchol ar y PMC, i beidio â chael ei gynnwys yn ffurfiol o gwbl yn llywodraethiant strategol y Gronfa Ffyniant.

4.9. Gwnaeth cylchau rhaglen saith mlynedd y Cronfeydd Strwythurol alluogi prosiectau i gael eu cyllido am dair blynedd a mwy. Oherwydd yr oediadau mewn cyflwyno'r Gronfa Ffyniant a natur tymor byr y cyllid, bydd prosiectau yn rhedeg am 18 mis neu lai. Nid yw hyn yn effeithiol ac nid yw'n rhoi sicrwydd na sefydlogrwydd i'r gwaith o gynllunio a chyflawni prosiectau. Mae'r cylchau cyllido blynyddol yn rhoi pwysau ar awdurdodau lleol i wario eu dyraniad er mwyn sicrhau nad ydynt yn colli'r cyllid, ac mae gorfod cyfiawnhau'r angen i gario'r arian drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf yn ychwanegu baich ychwanegol diangen ar awdurdodau lleol, sydd eisoes yn fyr o gapasiti.

4.10. Un o'r prif heriau y mae'r sector gwirfoddol yn ei hwynebu yw amserlenni a phrosesau'r Gronfa Ffyniant; rhoddir sylw i'r pryderon hyn ym mhwynt 7.

5. Pa fathau o ymyraethau a gaiff eu darparu drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, ac i ba raddau y mae'r rhain yn wahanol i ymyraethau Cronfeydd Strwythurol.

5.1. Er bod rhai gwahaniaethau rhwng y Gronfa Ffyniant a'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn hyn o beth, mae'r math o ymyraethau y mae'r sector gwirfoddol yn debygol o fod yn gysylltiedig â nhw yn debyg. Nod y Gronfa Ffyniant yw cefnogi ystod o weithgareddau y mae'r sector gwirfoddol yn arbenigo ynddynt a chyda phrofiad ohonynt (e.e. gweithredu cymunedol, cynorthwyo'r rheini sydd fwyaf ar yr ymylon mewn cymdeithas). Gan nad yw'r rhan helaeth o'r Gronfa wedi'i dyfarnu eto, mae'n rhy gynnar i ddweud i ba raddau y bydd yr ymyraethau'n wahanol, a faint ohonynt fydd yn cael eu cyflwyno gan y sector gwirfoddol.

5.2. Mae'r diffyg cydweithio ar draws ffiniau ym mlaenoriaethau Llywodraeth y DU yn amlwg. Mae colli'r mynediad at raglenni UE fel Interreg yn gadael bwlch yn y cyllid, ac rydym yn croesawu ymdrechion

Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gweithgareddau hyn drwy ei gwaith ar Gymru Ystwyth.

5.3. Mae'r brif her i'r sector gwirfoddol yn ymwneud mwy â gweithredu a chyflwyno'r Gronfa. Mae symud i ddarpariaeth o dan arweiniad awdurdodau lleol yn newid mawr o'i gymharu â'r Cronfeydd Strwythurol. Mae gan rai o fudiadau'r sector gwirfoddol gydberthynas gydweithredol â'r awdurdod lleol, ond mae eraill yn gweithio'n fwy ar wahân ac angen sefydlu a chryfhau'r cydberthnasau hyn.

6. A yw'r cyllid yn llwyddo i ganfod a chefnogi'r cymunedau ac ardaloedd yng Nghymru sydd â'r angen mwyaf, a sut mae lledaeniad daearyddol y cyllid yn cymharu â Chronfeydd Strwythurol.

6.1. Pennwyd dyraniadau'r Cronfeydd Strwythurol gan gynnyrch domestig gros (GDP) rhanbarth fesul pen o'r boblogaeth. Cafodd ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ei rhoi yn y categori 'llai datblygedig' gan fod ei GDP fesul pen o'r boblogaeth yn llai na 75% o gyfartaledd yr UE, ac ystyriwyd Dwyrain Cymru yn 'fwy datblygedig' gan fod ei GDP fesul pen o'r boblogaeth yn fwy na 90% o gyfartaledd yr UE. Ar sail y model hwn, cafodd rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (GCC) mwy o fuddsoddiad o lawer gan yr UE nag ardal Ddwyrain Cymru (DC).

6.2. Mae'r Gronfa Ffyniant yn defnyddio methodoleg ddyrannu gwahanol; caiff 40% o ddyraniad Cymru ei ddosbarthu i ardaloedd yn ôl eu poblogaeth, 30% yn ôl mynegai sy'n seiliedig ar anghenion a 30% arall ar sail Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Fel yr amlygwyd yn Dadansoddi Cyllid Cymru[4], mae'r cyllid wedi symud i ffwrdd o ranbarth GCC ac i ranbarth DC, ac er bod y lefelau cyllido yn parhau i fod yn uwch yn GCC o'u cymharu â DC, mae'r swm yn is nag oedd GCC yn ei dderbyn gan y Cronfeydd Strwythurol. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch a fydd y fethodoleg hon yn wirioneddol effeithiol o ran cefnogi'r mannau mwyaf anghenus. Byddem wedi hoffi gweld ymgynghoriad llawer ehangach ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd.

6.3. Yn aml, mudiadau'r sector gwirfoddol sydd yn y sefyllfa orau i gyrraedd a chynorthwyo'r bobl a chymunedau mwyaf agored i niwed sydd wedi eu hymyleiddio yn ein cymdeithas. Maent yn cyflawni ymyraethau sydd wedi eu teilwra i anghenion penodol eu grwpiau cleient, sy'n aml yn rhai cymhleth - y cleientiaid hynny nad yw gwasanaethau prif ffrwd yn eu cyrraedd yn aml. Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae'r sector

[4] Ifan, G. a Poole, E.G. (2022) Written Evidence to the Finance Committee's inquiry into Post-EU Funding Arrangements (*Tystiolaeth Ysgrifenedig ar gyfer Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i Gyllido ar ôl gadael yr UE*) https://business.senedd.wales/documents/s124953/PEU%2014%20Wales%20Fiscal%20Analysis.pdf (Saesneg yn unig) Cyrchwyd: 20 Ebrill 2023

gwirfoddol wedi magu gwybodaeth, capasiti ac arbenigedd wrth ddarparu gwasanaethau hanfodol i bobl â rhwystrau cymhleth, gyda chymorth cyllid yr UE. Mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau hyn wedi cau ac ni wyddys ar hyn o bryd a fydd y mudiadau hyn yn gallu cael cyllid gan y Gronfa Ffyniant i barhau â'r cymorth hanfodol hwn.

7. I ba raddau y mae'r prosesau a'r amserlenni a bennir gan Lywodraeth y DU ar gyfer y cyllid yn cefnogi awdurdodau lleol a rhanbarthau i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir ganddynt.

7.1. Er y cyhoeddwyd y Gronfa Ffyniant yn gyntaf yn 2017, ni chyhoeddwyd manylion llawn y Gronfa tan iddi gael ei lansio ym mis Ebrill 2022. Ni wnaeth Llywodraeth y DU gynnal ymgynghoriad ffurfiol ar ddyluniad y Gronfa Ffyniant ac ychydig iawn a wybuwyd am y Gronfa cyn mis Chwefror 2022, pan gafodd y Papur Gwyn Ffyniant Bro a chanllawiau cyn lansio'r Gronfa Ffyniant eu cyhoeddi o'r diwedd. Bu'n rhaid treulio'r rhan helaeth o flwyddyn gyntaf y cyfnod cyllido yn datblygu a chymeradwyo cynlluniau buddsoddi rhanbarthol a gosod strwythurau a phrosesau lleol a rhanbarthol. Dylai'r gwaith hwn fod wedi ei gwblhau cyn i'r Gronfa gael ei lansio, a byddai hyn wedi sicrhau cyfnod pontio llyfnach o gyllid yr UE i'r Gronfa Ffyniant. Un o'r prif wersi i'w dysgu o hyn yw bod angen i waith cynllunio ddechrau yn llawer cynt. Mae angen i drafodaethau ynghylch cyllid ar ôl Mawrth 2025 ddechrau cyn gynted â phosibl, gan gynnwys y sector gwirfoddol a sectorau eraill.

7.2. Gwnaeth colli cyllid yr UE a'r oedi cyn rhoi'r Gronfa Ffyniant ar waith arwain at fwlch cyllido sydd wedi cael goblygiadau sylweddol ar y sector gwirfoddol yn ogystal ag ar y bobl a'r cymunedau y mae mudiadau gwirfoddol wedi bod yn eu cynorthwyo gyda help cyllid yr UE. Caeodd y mwyafrif o'r prosiectau hyn ar ddiwedd mis Rhagfyr 2022, heb gyllid ar gael o'r Gronfa Ffyniant i barhau â'r gweithgareddau hyn, gan adael pobl sy'n agored i niwed heb y cymorth hanfodol y maent yn dibynnu arno, yn enwedig ar adeg pan rydym yn gweld cynnydd sylweddol mewn costau byw. Mae'r bwlch hwn yn y cyllid wedi arwain hefyd at golli cryn dipyn o gapasiti ac arbenigedd o fewn y sector gwirfoddol wrth i staff prosiect gael eu swyddi wedi eu dileu. Mae diwedd cyllid yr UE wedi effeithio'n aruthrol ar CGGC hefyd; mae'r mudiad wedi bod drwy broses ailstrwythuro yn ddiweddar a bydd yn colli tua un rhan o dair o'i staff.

7.3. Oherwydd yr oedi mewn cymeradwyo'r cynlluniau buddsoddi rhanbarthol, nid oedd awdurdodau lleol mewn sefyllfa i agor unrhyw alwadau am geisiadau cyn dechrau 2023, ac nid oes galwadau cyllid pellach wedi eu cyhoeddi eto mewn nifer o ardaloedd awdurdod lleol.

Er bod cyllid wedi ei gadarnhau tan fis Mawrth 2025, mae angen cwblhau prosiectau erbyn diwedd Rhagfyr 2024, er mwyn caniatáu amser i gau'r rhaglen. Golyga hyn na fydd gan bobl fwy na 18 mis i gyflawni eu prosiectau yn ôl pob golwg. O ganlyniad, rydym yn rhagweld anawsterau mewn recriwtio staff prosiect ar gyfer rolau dros dro, tymor byr. Mae natur tymor byr y Gronfa Ffyniant yn gyferbyniad llwyr i gylchau cyllido amlflwydd y Cronfeydd Strwythurol, a oedd yn rhoi sefydlogrwydd ac yn galluogi prosiectau i gael eu cyllido am lawer hirach.

7.4. Rydym yn teimlo dros awdurdodau lleol, sydd mewn sefyllfa anodd iawn ac yn gweithio i amserlenni heriol tu hwnt ac o dan bwysau enfawr. O ganlyniad i'r oediadau a nodwyd uchod, ychydig iawn o amser a gafodd awdurdodau lleol i ymgynghori â rhanddeiliaid ar gynlluniau buddsoddi lleol a rhanbarthol cyn cyflwyno'r rhain i Lywodraeth y DU. Gwnaeth y cyfnod hwn hefyd ddigwydd ar yr un pryd ag etholiadau'r llywodraeth leol, a roddodd mwy o bwysau amser ar awdurdodau lleol.

7.5. Fel y dywedwyd uchod, rydym yn cefnogi cyfeiriad strategol a pholisi'r Gronfa Ffyniant ar y cyfan, ond, mae ei weithrediad, ac yn enwedig yr amserlenni ar gyfer cyflawni a dyddiad diwedd presennol y cyllid yn golygu, yn ein tyb ni, na ellir cyflawni amcanion penodol y Gronfa Ffyniant.

8. Pa mor effeithiol y mae'r gwahanol lefelau o lywodraethu yng Nghymru yn cydweithio mewn perthynas â'r cronfeydd hyn.

8.1. Mae angen sefydlu strwythur llywodraethu eglur ar lefel Cymru, er mwyn sicrhau bod trosolwg strategol a gwaith craffu priodol yn cael ei wneud ar y Gronfa Ffyniant drwy ddull gweithredu ffurfiol, ac er mwyn darparu fforwm strategol lle gall rhanddeiliaid o amrediad eang o sectorau a chefndiroedd rannu dysgu ac arferion gorau a thrafod unrhyw faterion. Byddai trefniant o'r fath yn sicrhau bod y Gronfa yn cael ei gweithredu mewn modd cyson ledled Cymru, a byddai'n meithrin ymgysylltu a chydweithio ar draws sectorau. Yn y rhaglen Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd cyfredol yng Nghymru, mae gan y Pwyllgor Monitro Rhaglenni rôl debyg.

8.2. Mae anghysondebau yn y llywodraethu rhanbarthol a lleol hefyd. Mae pob rhanbarth yn mynd ati i reoli'r Gronfa mewn ffordd wahanol, a'r sector gwirfoddol yn cael ei gynnwys i raddau amrywiol. Er bod rhai enghreifftiau da o gydweithio rhwng awdurdodau lleol a Chynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs), nid yw hyn yn digwydd ym mhobman yng Nghymru. Nid yw rhai CVCs yn gysylltiedig ag unrhyw drafodaethau neu

benderfyniadau ynghylch y cyllid ar lefel leol, sy'n ei gwneud hi'n anodd iawn iddynt gynnwys eu haelodau yn y cyfleoedd posibl drwy'r Gronfa Ffyniant. Dywedodd un o'r CVCs y bydd rhai o'u haelodau yn cael cyllid, er nad ydynt wedi bod yn rhan o'r broses, sy'n awgrymu bod ymgysylltiad â'r sector gwirfoddol, ond nid o reidrwydd gyda'r CVC sydd ag aelodaeth gymunedol ehangach. Mae prosbectws y gronfa yn nodi y dylid cynnwys y sector gwirfoddol, mentrau cymdeithasol a mudiadau cymdeithas sifil yn y Gronfa drwy gael cynrychiolaeth ar y grwpiau partneriaeth leol. Ni enwir Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn y prosbectws, ond caiff Grwpiau Rhyngwyneb y Trydydd Sector (grwpiau cyfatebol y CVCs yn yr Alban) eu crybwyll wrth eu henwau. Gallai cynnwys grwpiau yng Nghymru ac unrhyw grwpiau cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon hefyd helpu i sicrhau nad yw'r cyrff cefnogol lleol hyn yn cael eu hepgor o'r penderfyniadau a'r prosesau.

8.3. Mae gan Gymru hanes hir o weithio mewn partneriaeth a phrofiad blaenorol o gydgynllunio datrysiadau ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae angen ymwreiddio'r dull gweithredu hwn yn y Gronfa Ffyniant er mwyn helpu i feithrin mwy o waith cydgysylltiedig a chydweithio. Byddai hyn yn arbennig o ddefnyddiol yn y sector cymorth cyflogaeth er enghraifft, sy'n gymhleth iawn ar hyn o bryd yng Nghymru. Caiff amrywiaeth o wasanaethau cyflogadwyedd eu darparu gan Lywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r awdurdodau lleol, a gallai gweithrediad tameidiog y Gronfa Ffyniant arwain at amrediad mawr o ymyraethau lleol newydd nad ydynt wedi eu hintegreiddio nac yn gydgysylltiedig â darpariaethau cyfredol eraill.

8.4. Yng nghynhadledd Llafur Cymru ar 11 Mawrth 2023, addawodd Keir Starmer i roi'r rheolaeth dros Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn ôl i Lywodraeth Cymru.[5] Fel y nodwyd uchod, mae cynllunio cynnar yn hanfodol i bontio'n llyfn rhwng rhaglenni cyllido, felly mae angen i Lywodraeth Cymru ddechrau cynllunio ar gyfer y senario hwn nawr, er mwyn sicrhau bod ganddi gynllun clir yn ei le os bydd y Blaid Lafur yn ennill yr etholiad.

9. Yr heriau a'r cyfleoedd y mae'r ffrydiau cyllido hyn yn eu darparu ar gyfer cyrff megis busnesau, colegau, prifysgolion a mudiadau'r sector gwirfoddol a dderbyniodd Gronfeydd Strwythurol.

9.1. Dyma rai o'r heriau mwyaf i'r sector gwirfoddol:

[5] Keir Starmer (2023) Yr anerchiad ar 'Gymru decach, gwyrddach'. Gwefan LabourList https://labourlist.org/2023/03/a-fairer-greener-wales-keir-starmers-speech-to-welsh-labour-conference/ (Saesneg yn unig) Cyrchwyd: 20 Ebrill 2023

9.1.1. Yr oediadau i roi'r Gronfa ar waith. Mae llawer o fudiadau eisoes wedi colli staff, arbenigedd a chapasiti ar ôl i'w prosiectau a gyllidwyd gan yr UE gau, a bydd angen ailgodi'r rhain os byddant yn rhedeg prosiectau a gyllidir gan y Gronfa Ffyniant.

9.1.2. Bydd natur tymor byr y cyllid yn debygol o'i gwneud hi'n anodd i fudiadau recriwtio staff prosiect oherwydd dim ond gwaith prosiect am dymor byr iawn y byddant yn gallu ei gynnig.

9.1.3. Mae'r anghysondeb mewn gweithredu a darparu yn arbennig o heriol i fudiadau mwy sy'n ceisio cael cyllid gan nifer o ardaloedd a rhanbarthau awdurdod lleol.

9.2. Mae'r Gronfa Ffyniant hefyd yn cyflwyno cyfleoedd i'r sector, e.e.:

9.2.1. Bydd yn haws cael cyllid ar gyfer prosiectau bach a arweinir gan y gymuned.

9.2.2. O'i chymharu â chyllid yr UE, bydd y baich gweinyddol yn llawer llai i brosiectau lleol bach a gyflwynir o fewn un ardal awdurdod lleol.

9.2.3. Gall symud i fodel cyflenwi newydd gynnig cyfleoedd i feithrin cydberthnasau newydd (e.e. gydag awdurdodau lleol).

10. Sut mae'r rhaglen Lluosi yn datblygu ar draws gwahanol rannau o Gymru, a beth yw'r rhwystrau a'r cyfleoedd posibl mewn perthynas â chyflwyno'r rhaglen hon.

10.1. Rydym yn parhau i wthio am fwy o hyblygrwydd o ran sut gellir buddsoddi a defnyddio Lluosi, ond nid yw'r sector gwirfoddol wedi cael rhyw lawer o rôl na chysylltiad â'r gwaith hwn hyd yma.